# Adran Tai ac Eiddo

Eiddo/LlM/7210

# AR WERTH DRWY DENDR – CYNIGION UCHAF AC OLAF

## Toiledau Cyhoeddus – Pen Gorllewin, Pwllheli, LL53 5AN

## Chwefror 2026



Nid yw'r manylion hyn yn ffurfio unrhyw ran o gynnig na chontract ac ni ddylid dibynnu arnynt fel datganiadau na chynrychioliadau o ffaith. Mae'r holl fesuriadau'n fras. Dylai darpar denantiaid wirio'r mesuriadau a gwybodaeth arall a ddarperir at ddibenion canllaw yn unig. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig arall.

**CYFLWYNIAD**

Gwahoddir cynnigion tendr ar gyfer rhydd-ddaliad teitl adeilad Toiledau Cyhoeddus Pen Gorllewin, Pwllheli, LL53 5AN.

**LLEOLIAD**

Pwllheli yw'r dref fwyaf ar Benrhyn Llŷn ac mae'n rhan o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn. Mae'r adeilad wedi'i leoli ar ochr orllewinol y Promenâd yn wynebu traeth Marian y De a Bae Ceredigion yn agos at ysgolion cynradd ac uwchradd y dref, a maes chwarae y tu ôl i'r adeilad.

**DISGRIFIAD**

Wedi ei defnyddio gynt fel Toiledau Cyhoeddus, mae'n adeilad unllawr y tybir iddo fod o adeiladwaith bloc traddodiadol gyda rendrad cerrig mân o dan do fflat ffelt. Mae gan yr adeilad ddau ddrws ar y naill ochr a ddefnyddiwyd gynt fel mynedfeydd ar gyfer y toiledau gwrywaidd a benywaidd ar wahân, yn ogystal â drws i ystafell ar wahân yng nghanol yr adeilad.
Mae llwybr concrit o amgylch yr adeilad sy'n ei gwneud yn hawdd ei gyrraedd ar droed o'r palmant, sydd wedi'i wahanu gan wal garreg isel.

**MESURIADAU**

Mesuriadau bras y safle yw 206.43m², gyda'r adeilad ei hun yn mesur oddeutu 27.07m².

**GWASANAETHAU**

Deellir bod yr adeilad yn elwa o brif gyflenwad trydan, dŵr a draeniad ond ni ellir rhoi unrhyw sicrwydd na gwarantau mewn perthynas â chyflwr y gwasanaethau a'u cysylltiadau.
Dylai partïon â diddordeb ymholi i sicrhau bod y darpariaethau gwasanaeth yn addas ar gyfer eu defnydd arfaethedig eu hunain.

**DEILIADAETH**

Mae'r eiddo (wedi'i amlinellu mewn coch ar y cynllun ynghlwm) i'w werthu'n rhydd-ddaliadol yn ei gyflwr presennol. Mae'r eiddo wedi ei gofrestru o dan y teitl CYM467515.

**DEFNYDD**

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau cynllunio i Uned Gynllunio Cyngor Gwynedd ar 01766 771 000 neu ar cynllunio@gwynedd.llyw.cymru.

**TRETHI**

Byddai'r prynwr yn gyfrifol am drethi annomestig. Dylid cyfeirio pob ymholiad trethi annomestig i Uned Trethi Annomestig Cyngor Gwynedd ar 01766 771 000 neu at trethiannomestig@gwynedd.llyw.cymru.

Nid yw'r manylion hyn yn ffurfio unrhyw ran o gynnig na chontract ac ni ddylid dibynnu arnynt fel datganiadau na chynrychioliadau o ffaith. Mae'r holl fesuriadau'n fras. Dylai darpar denantiaid wirio'r mesuriadau a gwybodaeth arall a ddarperir at ddibenion canllaw yn unig. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig arall.

## COSTAU CYFREITHIOL

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gyfrannu 0.60% o'r pris gwerthu neu £670 (pa bynnag un sydd uchaf) tuag at gostau cyfreithiol Cyngor Gwynedd.

## CYFLWR

Mae'r eiddo yn cael ei werthu yn ei gyflwr presennol heb unrhyw waith i'w wneud arno gan y gwerthwr cyn ei werthu.

## YMWELIADAU

Ni fydd modd ymweld â'r eiddo'n fewnol, ond mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb gweld yr eiddo'n allanol i wneud hynny ar eu hwylustod a'u risg eu hunain, heb groesi unrhyw dir preifat cyfagos.

## CANLLAWIAU GWNEUD CAIS

Ni dderbynnir unrhyw dendrau oni bai eu bod yn cael eu cyflwyno yn y modd cywir fel y manylir isod.

**Rhaid** cyflwyno pob cais mewn amlen wedi ei selio gan ddefnyddio'r label cyfeiriad tendro priodol er mwyn sicrhau na fydd unrhyw geisiadau'n cael eu hagor cyn y dyddiad cau. Rhaid peidio â marcio'r amlen mewn unrhyw ffordd i newid ei ymddangosiad oni bai am nodi y cyfeiriad a chyfrirnod cywir yn y llefydd priodol. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd dalu am unrhyw gost postio.

Mae'r ffurflen gais dendro a'r label cyfeiriad tendro priodol ar gael yn y paced neu ar gais gan Uned Stadau Cyngor Gwynedd.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **12yh ar Ddydd Mercher yr 11eg o Fawrth, 2026**. Dylech anfon neges trwy e-bost i stadau@gwynedd.llyw.cymru i roi gwybod i ni eich bod wedi cyflwyno cais – dylech ond ein hysbysu eich bod wedi cyflwyno cais ac **ni ddylech** ddatguddio manylion eich cynnig.

## CYFLAWNDER Y TENDR

Dylai pob ymgeisydd ymweld â'r eiddo, a'i archwilio cyn tendro, er mwyn bodloni eu hunain ynglŷn â holl amodau a chyfyngiadau lleol sy'n effeithio ar y contract. Ni ganiateir unrhyw hawliad a fyddai'n deillio o beidio â gwneud hyn.

## GWRTHODIR YMRWYMIAD

Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y tendr uchaf nac unrhyw dendr. Ystyrir Tendrau is na gwerth y farchnad a fyddai yn helpu i sicrhau gwelliant yn lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yr ardal. Nid oes gan yr ymgeisydd yr hawl i ofyn am unrhyw dreuliau neu gostau a achosir wrth baratoi tendr.

Nid yw'r manylion hyn yn ffurfio unrhyw ran o gynnig na chontract ac ni ddylid dibynnu arnynt fel datganiadau na chynrychioliadau o ffaith. Mae'r holl fesuriadau'n fras. Dylai darpar denantiaid wirio'r mesuriadau a gwybodaeth arall a ddarperir at ddibenion canllaw yn unig. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig arall.

**CWBLHAU Y PRYNIAINT**


Bydd yn ofynnol i'r tendrwr llwyddiannus ddarparu prawf o gyllid o fewn **un mis** o dderbyn cynnig ysgrifenedig gan y Cyngor, a mynd ymlaen i gwblhau y pryniaint o fewn **tri mis** o dderbyn o dderbyn cadarnhad o dderbyn y cynnig gan y Cyngor.

**YMHOLIADAU AC YMWELIADAU**

Am ymholiadau pellach, cysylltwch â'r Uned Stadau ar 01766 771 000 neu at stadau@gwynedd.llyw.cymru.

Nid yw'r manylion hyn yn ffurfio unrhyw ran o gynnig na chontract ac ni ddylid dibynnu arnynt fel datganiadau na chynrychioliadau o ffaith. Mae'r holl fesuriadau'n fras. Dylai darpar denantiaid wirio'r mesuriadau a gwybodaeth arall a ddarperir at ddibenion canllaw yn unig. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig arall.

**CYNLLUN SAFLE**




Nid yw'r manylion hyn yn ffurfio unrhyw ran o gynnig na chontract ac ni ddylid dibynnu arnynt fel datganiadau na chynrychioliadau o ffaith. Mae'r holl fesuriadau'n fras. Dylai darpar denantiaid wirio'r mesuriadau a gwybodaeth arall a ddarperir at ddibenion canllaw yn unig. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig arall.